

Hysbyseb Preifatrwydd – Diogelu Data. Canllaw i fyfyrwyr (2018)

Cyflwyniad

Ariennir y rhaglen ddysgu rydych chi ar fin cofrestru arni naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu'n rhannol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) (drwy Lywodraeth Cymru).

Mae cymryd rhan yn y rhaglen hon yn ddibynnol arnoch chi'n darparu data personol. Llywodraeth Cymru fydd rheolwr data'r wybodaeth bersonol y mae'n ei derbyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r data hyn i gyflawni ei thasg gyhoeddus wrth weinyddu a monitro ei chyllid. Cedwir gwybodaeth arall gan eich darparwr dysgu er mwyn gweinyddu'r rhaglen.

Os yw'ch rhaglen wedi'i hariannu gan ESF, gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol gan eich darparwr dysgu, megis pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster. Caiff copi o'r dystiolaeth hon ei gadw gan eich darparwr dysgu at ddibenion archwilio ESF ac anfonir sampl i Lywodraeth Cymru.

Am restr lawn o ddata personol a chategori arbennig a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, cliciwch yma i weld yr hysbysiad preifatrwydd cyflawn <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/lifelong-learning-wales-record-privacy-notice-2018-version-1.0.pdf>

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn prosesu data ar ran Llywodraeth Cymru, gan gasglu a phrosesu gwybodaeth ychwanegol.

Sut bydd eich data'n cael eu defnyddio gan y Coleg

Mae'ch darparwr, Coleg Gŵyr Abertawe, yn prosesu data ar ran Llywodraeth Cymru (LIC) ac er mwyn ein galluogi ni i:

- Gefnogi'ch dysgu, eich addysgu a'ch asesu;
- Darparu mynediad i systemau'r Coleg;
- Monitro eich cynnydd ac adrodd amdano;
- Bodloni gofynion iechyd a diogelwch a chyfleoedd cyfartal;
- Darparu gofal bugeiliol priodol a sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd o ofal i bob un o'n dysgwr;
- Datgeliadau meddygol a'r dystiolaeth ategol ofynnol y mae'n rhaid i ni wybod amdani i ddarparu'r cymorth priodol

Pa wybodaeth bersonol mae'r Coleg yn ei chasglu yn ychwanegol i'r hyn a ddarperir i Lywodraeth Cymru

Mae'r data ychwanegol rydym yn eu casglu at ein dibenion ni, er mwyn darparu addysg i chi, yn cynnwys:

- Cyfenw blaenorol
- Enw a ddefnyddir
- Rhif ffôn symudol
- Cyfeiriad e-bost
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Gwlad breswyllo barhaol
- Dyddiad dod i'r DU
- Eich cymwysterau blaenorol
- P'un a yw Saesneg yn iaith gyntaf i chi
- P'un a'ch bod wedi cael unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer arholiadau yn y gorffennol
- Tystiolaeth feddygol mewn perthynas ag unrhyw drefniadau arbennig y mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol ohonynt tra byddwch yn astudio gyda ni ac i'w rhoi ar waith ar gyfer eich dysgu a'ch arholiadau.
- Gwybodaeth am eich ysgol flaenorol a Dinas a Sir Abertawe (amser llawn)
- Gwybodaeth mewn perthynas â chais GDG (pan fydd yn angenrheidiol oherwydd natur y cwrs)
- Gwybodaeth am bresenoldeb

- Yr holl waith a gyflwynwyd, gan gynnwys y marciau a'r graddau a ddyrannwyd

Rydym hefyd yn gofyn am y data categori arbennig canlynol gennych, er mwyn cydymffurfio â monitro cydraddoldeb:

- Crefydd neu gred
- Statws priodasol
- Cyfeiriadedd rhywiol

Rydym yn gofyn am fanylion ynghylch eich mamiaith er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a llywio penderfyniadau am ein darpariaeth Gymraeg.

Gyda phwy mae'r Coleg yn rhannu'ch gwybodaeth?

Bydd y Coleg yn rhannu peth o'ch data gyda'r sefydliadau a gymeradwywyd canlynol:

- Llywodraeth Cymru (fel a ddisgrifiwyd yn yr hysbyseb preifatrwydd hwn)
- Y Gwasanaethau Cofnodion Dysgwyr (er mwyn darparu Rhif Dysgwr Unigol i chi)
- WEST (dull sgrinio addysgol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru)
- Cyrff Dyfarnu
- Gyrfa Cymru
- Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe
- Colegau Cymru – Canlyniad
- Gellir ychwanegu rhagor o reolwyr a phrosesyddion data o bryd i'w gilydd

Caiff eich data eu defnyddio neu eu trosglwyddo at ddibenion penodol yn unig a ganiateir gan y gyfraith. Mae'n rhaid i ni anfon peth o'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch i Lywodraeth Cymru (LIC). Ceir manylion hysbysiad preifatrwydd LIC isod.

Am ba mor hir bydd y Coleg yn cadw'ch data?

Bydd y Coleg yn cadw'ch data yn unol â gofynion LIC. Ceir manylion y data rydym yn eu casglu at ein dibenion isod:

Math o gofnod	Cyfnod cadw	Diben
Data/cofnodion myfyrwyr, (nid ydynt yn ofynnol i Lywodraeth Cymru) gan gynnwys cyrrhaeddiad academiaidd ac ymddygiad	Am o leiaf 6 blynedd o ddyddiad y mae'r myfyriwr yn gadael y Coleg	Cyfnod cyfyngedig ar gyfer esgeulustod
	Am o leiaf 10 mlynedd ar gyfer geirdaon personol ac academiaidd	Galluogi'r Coleg i ddarparu geirdaon am gyfnod rhesymol o amser
	Gellir cadw data personol penodol am byth	Er y bydd rhai geirdaon personol ac academiaidd yn mynd yn "hen", gellir bod angen rhai mathau o ddata, e.e. trawsgrifiadau o raddau myfyrwyr, drwy gydol gyrfa'r myfyriwr.

Trefniadau diogelwch

Caiff eich data, boed ar ffurf electronig neu bapur, yn cael eu cadw'n unol â'n polisi naill ai mewn ffeiliau a amddiffynnir gan gyfrinair neu mewn cypyrddau neu ystafelloedd ar glo. Mae gan staff fynediad i'ch data ar sail "angen gwybod" yn unol â'u dyletswyddau yn y Coleg ac maent oll yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf a'u cyfrifoldebau.

Eich hawliau a'ch dewisiadau

O dan GDPR, mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i ddata personol y mae'r Coleg yn eu cadw amdanoch
- Gofyn i'r Coleg gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- Gwrthod unrhyw brosesu sy'n seiliedig ar eich sefyllfa personol chi (dan rai amgylchiadau)
- Cyfyngu ar brosesu (dan rai amgylchiadau)

- Dileu'ch data (dan rai amgylchiadau)
- Cyflwyno cwyn gerbron Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO, sef rheolydd annibynnol diogelu data)

Eich cyfrifoldebau: rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y data rydym yn eu cadw'n gywir. A wnewch chi ein hysbysu os bydd unrhyw newidiadau i'ch data, e.e. cyfeiriad, rhif ffôn etc. Gellir dod o hyd i'r ffurflenni ar-lein ac mewn derbynfeydd.

Manylion cyswllt

Mae Polisi Diogelu Data'r Coleg ar gael ar wefan y Coleg.

Os hoffech chi fwy o esboniad am y GDPR neu hoffech chi gael mynediad i ddata personol amdanoch y mae'r Coleg yn eu cadw, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data: DPO@gowercollegeswansea.ac.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif ffôn: 029 2067 8400

Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes (CDGO) (Rhan 1)

Cyflwyniad

Caiff y rhaglen ddysgu yr ydych ar fin cofrestru arni ei hariannu naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu'n rhannol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (drwy Lywodraeth Cymru).

Er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd yn rhaid i chi ddarparu data personol. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth personol y bydd yn ei chael.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i gyflawni'r dasg gyhoeddus o weinyddu a monitro ei harian. Bydd gwybodaeth arall yn cael ei chadw gan eich darparwr dysgu er mwyn gweinyddu'r rhaglen.

Os caiff eich rhaglen ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, bydd eich darparwr dysgu yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol megis pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster. Bydd copi o'r dystiolaeth hon yn cael ei gadw gan eich darparwr dysgu at ddibenion archwilio gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a bydd sampl yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru.

I weld rhestr lawn o'r data personol a'r data categori arbennig a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, cliciwch yma i weld yr hysbysiad preifatrwydd llawn www.llyw.cymru/llwr

At ba ddiben y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data at ddibenion ariannu, cynllunio a datblygu polisi yn ogystal â monitro canlyniadau dysgwyr (megis ennill cymwysterau). Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn ystadegau ac ymchwil ynghylch dysgu ôl-16.

At hynny bydd eich data'n cael ei gysylltu – at ddibenion ymchwil – â chofnodion addysgol eraill a gedwir gan Lywodraeth Cymru, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch, ac â chofnodion eraill a gedwir gan Lywodraeth y DU, megis data cyflogaeth, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cyfrifo mesurau'n ymwneud â chyrchfannau dysgwyr a deall effaith y ddarpariaeth ôl-16 ar ganlyniadau ehangach.

Bydd unrhyw ystadegau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn ddiennw, sy'n golygu na fydd modd adnabod dysgwyr unigol.

Eich hawliau a'ch dewisiadau

Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, mae gennych yr hawl i:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch
- mynnu bod Llywodraeth Cymru yn cywiro manylion anghywir yn y data hwnnw
- gwrthwynebu unrhyw achos o brosesu'r data, am resymau'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar waith prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- mynnu bod eich data'n cael ei ddileu (mewn rhai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am ba hyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth?

Y math o ddata	Cyfnod cadw'r data	Y defnydd a wneir o'r data
Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Bydd eich data'n cael ei ddileu ar ôl 10 mlynedd	Mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi cyllid a chreu adroddiadau dros gyfnod o amser. Gellir defnyddio'r adroddiadau hynny i helpu i lywio penderfyniadau ynghylch polisiau neu ragweld cyllid yn y dyfodol. Os caiff y dysgu ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, caiff data ei gadw fel bod modd ei wirio a'i archwilio. Yr Undeb Ewropeaidd sy'n penderfynu ynghylch yr amserlenni ar gyfer cadw data.
Dysgu Seiliedig ar Waith	Bydd eich data'n cael ei ddileu 10 mlynedd ar ôl diwedd cyfnod y contract	

Manylion cyswllt

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru a'r modd y caiff y wybodaeth honno ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

dataprotectionofficer@gov.wales

Pa wybodaeth bersonol amdanoch fydd yn cael ei chasglu a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru?

Bydd rhywfaint o'r data a gesglir amdanoch gan ddarparwyr ac a anfonir i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn **ddata personol** a/neu'n **ddata categori arbennig** fel y diffinnir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a bydd yn cynnwys:

Data personol

- Dynodydd unigryw'r dysgwr (a grëwyd gan Lywodraeth Cymru)
- Rhif adnabod y dysgwr (a grëwyd gan eich darparwr dysgu)
- Eich cyfenw
- Eich enw(au) cyntaf
- Eich cyfeiriad
- Eich cod post
- Eich rhif ffôn
- Eich rhif Yswiriant Gwladol
- Eich rhyw
- Eich cyfenw pan yn 16 oed
- Eich dyddiad geni
- Eich hunaniaeth genedlaethol
- Yr ysgol ddiwethaf yr aethoch iddi
- Y flwyddyn y gadawsoch yr ysgol
- Rhif dysgwr unigryw (a grëwyd gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu)

At hynny ceir data amdanoch a gaiff ei alw'n **ddata categori arbennig**. Nid oes yn rhaid i chi ddarparu'r data hwn a fydd yn cynnwys:

- Ethnigrwydd
- Math o anabled
- Cyflwr iechyd.

Caiff y data personol/categori arbennig dan sylw ei ddefnyddio ar draws pob darpariaeth dysgu ôl-16 ym maes Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Cymraeg i Oedolion.

Sut y bydd eich data'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru?

- At ddibenion gweinyddu, er mwyn sicrhau bod y data y byddwn yn ei gasglu amdanoch yn cael ei storio'n gywir ac yn ddiogel ac yn unol â safon uchel o ran ansawdd
- Er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch polisïau'n awr ac yn y dyfodol ar gyfer dysgu ôl-16
- Er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddyrannu a monitro cyllid ar gyfer dysgu ôl-16, gan gynnwys dysgu a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop
- Er mwyn rhoi i archwilyr y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i gyflawni eu gwaith
- Er mwyn galluogi darparwyr i ddatrys unrhyw broblemau data a allai fod ganddynt ar eu systemau
- Er mwyn helpu i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes dysgu ôl-16 ledled Cymru
- At ddibenion dadansoddi ac ymchwil, lle byddwn yn mynd drwy'r data er mwyn chwilio am batrymau ac elfennau tebyg. Bydd hynny'n galluogi Llywodraeth Cymru i wneud gwelliannau i ddysgu ôl-16 yn y dyfodol
- Er mwyn creu ystadegau swyddogol dienw ynghylch dysgu ôl-16 yng Nghymru
- Er mwyn ymateb i geisiadau *ad hoc* gan randdeiliaid a'r cyhoedd am ddadansoddiadau
- Er mwyn galluogi darparwyr dysgu i fesur a chymharu eu perfformiad eu hunain
- Gan gcontractwyr trydydd parti a fydd yn dadansoddi ac yn cysylltu'r data fel y gallwn gyfrifo mesurau perfformiad
- Gan gcontractwyr trydydd parti sy'n gweithio ar waith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru
- Gan ymchwilyr eraill a allai weld data dienw gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru.

Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data?

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data â'r sefydliadau trydydd parti canlynol:

- Cymwysterau Cymru
- Gyrfa Cymru
- Estyn
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Adran Addysg Llywodraeth y DU

Y contractwyr trydydd parti canlynol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gwaith ymchwil a gwerthuso:

- Contractwyr gwerthuso
- Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Cwmni Ymgynghori Arad
- IFF Research

Cytundebau rhannu data

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cytundeb rhannu data ffurfiol ar waith pryd bynnag y byddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti. Mae rhan o'r cytundeb yn golygu y bydd yn rhaid i drydydd parti lofnodi cytundeb cyfrinachedd ynghylch eich data er mwyn dangos ei fod yn gweithredu gweithdrefnau boddhaol ar gyfer diogelwch gwybodaeth ac y bydd yn dinistrio ei gopiâu o'ch data pan na fydd arno angen y data mwyach. Dim ond at y diben y mae'n cytuno arno y bydd modd iddo ddefnyddio eich data, ac ni fydd modd iddo ddefnyddio'r data at unrhyw ddiben arall. Caiff pob achos o drosglwyddo data ei logio a'i gofnodi.

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion cyswllt isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

029 2067 8400 (llinell gymorth ar gyfer Cymru) neu
0303 123 1113 (llinell gymorth ar gyfer y DU)

[Home LICO](#)

Trefniadau diogelwch ar gyfer eich data a gedwir gan Lywodraeth Cymru

Bydd y data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu amdanoch yn cael ei storio mewn cronfa ddata ddiogel y caiff mynediad iddi ei reoli ac y caiff profion eu cynnal yn rheolaidd arni er mwyn sicrhau ei diogelwch a'i hintegriti.